

Trosolwg

Gwariant ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE

Mae'r ddogfen hon ar gyfer
ymgyrchwyr sydd am wybod am y
rheolau ynglŷn â gwariant yn y
refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE

Diweddarwyd 28 Ebrill 2016

Cynnwys:

[Beth yw gwariant ar refferendwm](#)

[Rheoli gwariant ar refferendwm](#)

[Cofnodi gwariant ar refferendwm](#)

[Rhoi gwybod am wariant ar](#)

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio **'rhaid'** wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio **'dylai'** ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio arian a gwariant gwleidyddol mewn ffordd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn deg. Rydym yn ymrwymedig i roi dealltwriaeth glir i'r rheini a reoleiddiwn o'u rhwymedigaethau rheoliadol drwy ein canllawiau a'n gwasanaeth cynghori. Os nad ydych yn siŵr sut mae unrhyw rai o'r rheolau hyn yn gymwys i chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym hefyd yn cymryd camau gorfodi, gan ddefnyddio ein pwerau ymchwiliol a sancsiynau, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni ein nodau ac amcanion gorfodi.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Mae mwy o wybodaeth am ddull gorfodi'r Comisiwn yn

www.electoralcommission.org.uk/cymru/party-finance/enforcement

2

Trosolwg o wariant ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r canlynol:

Y rheolau ynglŷn â gwariant yn ystod y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- cyflwyniad i wariant ar refferendwm
- beth yw gwariant ar refferendwm
- rheoli gwariant ar refferendwm
- gweithio gydag ymgyrchwyr eraill
- cofnodi gwariant ar refferendwm
- rhoi gwybod am wariant ar ôl y refferendwm

Dogfennau cysylltiedig:

- [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Rhoi gwybod am roddion a benthyciadau cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Amserlen a dyddiadau cau ar gyfer adroddiadau ar gyfer Refferendwm yr UE](#)
- [Proses ddynodi ar gyfer Refferendwm yr UE](#)
- [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

Papurau arbenigol

- [Rhannu gwariant](#)

Crynodeb

Caiff gwariant ar ymgyrchu mewn refferendwm ei reoleiddio dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015.

Bydd y trosolwg hwn yn rhoi dealltwriaeth i chi o'r egwyddorion sydd ynghlwm wrth wariant ar refferendwm a'r rheolau y mae angen i chi eu dilyn.

4

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae gennym gyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE.

Ein hamcanion ar gyfer y refferendwm yw:

- y dylai gael ei chynnal yn dda ac arwain at ganlyniadau a dderbynnir
- y dylai fod uniondeb a thryloywder o ran arian a gwariant ar ymgyrchu

Yn y cyfnod cyn refferendwm, ceir cyfnod ymgyrchu ffurfiol a elwir yn 'gyfnod y refferendwm'. Yn ystod y cyfnod hwn, mae rheolau penodol ar ymgyrchu a gwariant yn gymwys.

Mae cyfnod y refferendwm yn dechrau ar 15 Ebrill 2016 ac yn dod i ben ar 23 Mehefin 2016. Mae'r terfynau gwario yn gymwys yn ystod y cyfnod hwn.

Os hoffech wario mwy na £10,000 ar ymgyrchu, oni bai eich bod yn "cydweithio" â grŵp ymgyrchu arweiniol (rhagor o wybodaeth isod), rhaid i chi gofrestru â ni.

Beth yw gwariant ar refferendwm?

Mae gwariant ar refferendwm yn cynnwys arian a gaiff ei wario ar weithgareddau ymgyrchu penodol (a restrir ar dudalen 6) y bwriedir iddynt hyrwyddo neu hwyluso canlyniad penodol yn y refferendwm neu sy'n ymwneud â hynny mewn unrhyw ffordd arall.

Mae'n cynnwys gwariant ar:

- eitemau neu wasanaethau a ddefnyddir yn ystod cyfnod y refferendwm gan gynnwys y rhai a brynir cyn i'r cyfnod ddechrau
 - eitemau neu wasanaethau a ddefnyddir yn ystod y refferendwm ond y telir amdanynt ar ôl hynny
 - eitemau neu wasanaethau a roddir i chi am ddim neu a gynigir am bris gostyngol anfasnachol o fwy na 10% (gweler 'Gwariant tybiannol' ar dudalen 11 a 12)
-

6

Pa weithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu?

Caiff gwariant ar y gweithgareddau canlynol ei gyfrif yn wariant ar refferendwm os bwriedir iddynt hyrwyddo neu hwyluso canlyniad penodol yn y refferendwm neu os ydynt yn ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall.

- darllediadau ymgyrchu
- hysbysebion o unrhyw fath. Er enghraifft, baneri stryd, gwefannau neu fideos YouTube
- deunydd a anfonir at bleidleiswyr yn ddigymell. Er enghraifft, llythyrau neu daflenni a anfonwch nad ydynt mewn ymateb i ymholiadau penodol
- deunydd arall am y refferendwm, fel deunydd sy'n egluro dadleuon eich ymgyrch, yn egluro eich disgwyliadau am yr hyn fyddai'n digwydd yn achos canlyniad penodol, neu'n annog pobl i bleidleisio
- ymchwil i'r farchnad neu ddulliau eraill o ganfod sut mae pobl yn bwriadu pleidleisio
- cynadleddau i'r wasg neu ddelio â'r cyfryngau mewn ffyrdd eraill
- raliâu a digwyddiadau, gan gynnwys cost presenoldeb pobl, ac unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir
- cludiant mewn cysylltiad â rhoi cyhoeddusrwydd i'ch ymgyrch



Rhaid i chi gynnwys deunydd a anfonir at eich aelodau neu gefnogwyr.

Rhaid i chi gynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â phob gweithgaredd (heblaw am y costau nad ydynt yn cyfrif fel gwariant - gweler yr adran nesaf ar dudalen 7). Er enghraifft, os ydych yn llunio taflenni neu hysbysebion, rhaid i chi gynnwys y costau dylunio a dosbarthu, gan gynnwys unrhyw ymchwil a wnaethoch at ddibenion eich ymgyrch.

Rhaid i chi hefyd gynnwys gorbenion neu gostau gweinyddol sy'n gysylltiedig â phob gweithgaredd. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys biliau ffôn a chyfleustodau uwch ar gyfer eich swyddfa. Dylech lunio asesiad gonest o'r swm rydych wedi'i wario yn seiliedig ar y ffeithiau.

Dim ond ar gyfer gweithgareddau y mae eu costau'n cyfrif fel gwariant ar y refferendwm y mae angen i chi gynnwys gorbenion neu gostau gweinyddol. Er enghraifft, nid oes angen cofnodi gorbenion neu gostau gweinyddol sy'n gysylltiedig â threfniadau teithio neu lety pobl (ar yr amod nad ydych yn eu had-dalu neu'n talu'r costau hynny'n uniongyrchol). Os byddwch yn ad-dalu costau teithio neu lety pobl, gan gynnwys ystafelloedd mewn gwestai, neu'n talu'r costau hynny'n uniongyrchol, bydd hyn yn cyfrif fel gwariant ar refferendwm. Gweler isod am ragor o fanylion am ba weithgareddau na chânt eu cyfrif yn wariant ar refferendwm.

Rhannu gwariant

Efallai y bydd angen i chi rannu eich gwariant mewn rhai achosion.

Er enghraifft, rhwng gweithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant ar refferendwm a gweithgareddau nad ydynt yn cyfrif fel gwariant ar refferendwm. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar dudalen 13.

Deunydd y gellir ei lawrlwytho

Os rhoddwch ddeunydd ar eich gwefan i bobl ei argraffu at eu defnydd personol, fel posteri ffenestr neu ffurflenni deiseb, bydd y costau dylunio a chostau'r wefan yn cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu. Ni fyddai angen i chi gyfrif costau argraffu pobl yn erbyn eich terfyn gwariant, oni bai bod pobl yn argraffu dogfennau ar eich rhan.

Costau darlledu grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig

Os ydych yn grŵp ymgyrchu arweiniol dynodedig, rhaid i chi gynnwys costau cynhyrchu eich darllediadau ymgyrchu ar gyfer y refferendwm. Nid oes angen i chi gynnwys gwerth yr amser ar yr awyr.

8

Pa wariant nad yw'n cyfrif tuag at eich terfyn gwario?

- amser gwirfoddolwyr
- costau staff parhaol, cyfnod penodol neu dros dro lle mae gan yr aelod o staff contract cyflogaeth uniongyrchol â'r ymgyrchydd
- costau teithio, bwyd a llety pobl tra byddant yn ymgyrchu, oni bai eich bod yn eu had-dalu neu'n talu'r costau hynny'n uniongyrchol
- costau darparu diogelwch mewn rali gyhoeddus neu ddigwyddiad cyhoeddus
- treuliau (ac eithrio hysbysebion) sy'n gysylltiedig â chyhoeddi deunydd mewn papur newydd, cyfnodolyn, a darllediadau penodol
- defnydd ymgyrchwyr arweiniol dynodedig o ystafelloedd cyhoeddus neu wasanaethau postio am ddim

Amser gwirfoddolwyr

Nid yw amser gwirfoddolwyr yn cyfrif tuag at eich terfyn gwario. . Fodd bynnag, bydd gwariant ar unrhyw adnoddau a ddarparwch er mwyn galluogi eich gwirfoddolwyr i ymgyrchu mewn perthynas â'r refferendwm yn cyfrif tuag at eich terfyn gwario. Er enghraifft, os byddwch yn llogi bws mini i gludo gwirfoddolwyr tra'u bod yn canfasio, bydd cost llogi'r bws yn cyfrif tuag at y terfyn gwario.

Weithiau efallai na fyddwch yn siŵr a yw rhywun yn wirfoddolwr neu a ddylai ei amser gael ei drin fel gwariant tybiannol. Er enghraifft, efallai bod yr unigolyn yn cynnig gwasanaethau tebyg yn broffesiynol i'r rhai y mae'n eu cyflawni i chi, fel dylunio gwefannau neu gynllunio digwyddiadau.

Mae unigolyn yn debygol o fod yn wirfoddolwr, er enghraifft, os nad yw ei gyflogwr yn talu am yr amser y mae'n ei dreulio ar eich ymgyrch (oni bai ei fod yn gwneud hynny yn ystod ei wyliau blynyddol arferol).

Os bydd yn defnyddio cyfarpar neu ddeunyddiau arbenigol, dylech ystyried a yw'r defnydd ohonynt yn wariant tybiannol, gan ddefnyddio'r egwyddorion yn yr adran ar dudalen 11.

Defnydd ymgyrchwyr arweiniol dynodedig o ystafelloedd cyhoeddus a gwasanaethau postio am ddim

Os ydych yn grŵp ymgyrchu arweiniol dynodedig, mae hawl gennych i ddefnyddio ystafelloedd cyhoeddus penodol am ddim a gwasanaethau postio am ddim i gyfeiriadau yn y DU a Gibraltar. Nid oes angen i chi gynnwys gwerth am logi'r ystafell na'r costau sy'n gysylltiedig â llunio deunydd ar gyfer yr ymgyrch bostio. Fodd bynnag, os byddwch yn defnyddio ystafelloedd am ddim, rhaid i chi gynnwys unrhyw gostau gwresogi, goleuo neu yswiriant a delir.

Digwyddiadau nad ydynt yn hyrwyddo canlyniad

Os byddwch yn cynnal digwyddiad gan wahodd siaradwyr i gynrychioli'r ddau ganlyniad ac yn rhoi cyfle cyfartal i bawb sy'n bresennol gymryd rhan, ac felly nad bwriad y digwyddiad yw hyrwyddo neu hwyluso canlyniad penodol mewn unrhyw ffordd, mae'n annhebygol y bydd eich gwariant ar y digwyddiad yn cyfrif fel gwariant ar refferendwm.

Gweithio gydag ymgyrchwyr eraill

Gall ymgyrchwyr weithio gyda'i gilydd ar ymgyrch ar y cyd. Bydd unrhyw wariant ar ymgyrch ar y cyd yn cyfrif tuag at y terfynau ar gyfer pob ymgyrchydd dan sylw.

Os byddwch yn gwario arian ar ymgyrch ar y cyd ag ymgyrchydd arweiniol dynodedig, bydd unrhyw wariant yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r ymgyrchydd arweiniol dynodedig yn unig. .

Mae angen i ymgyrchwyr sicrhau eu bod yn deall y rheolau ynglŷn â chydweithio. Os na fydd ymgyrchwyr yn dilyn y rheolau, gallent dorri eu terfynau gwario. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen [Cydweithio ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#).

Terfynau gwario

Mae terfynau ar faint y gallwch ei wario ar eich gweithgareddau ymgyrchu. Pennir y terfynau mewn deddfwriaeth. Mae'r terfynau hyn yn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o ymgyrchwyr.

Mae'r terfynau gwario yn gymwys ar gyfer cyfnod y refferendwm sy'n dechrau ar 15 Ebrill ac yn dod i ben ar 23 Mehefin 2016.

Ymgyrchwyr refferendwm anghofrestredig

Os na fyddwch yn cofrestru â ni, gallwch wario hyd at £10,000. Rhaid i chi gofrestru â ni fel ymgyrchydd refferendwm os ydych yn bwriadu gwario mwy na £10,000.

Ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig

Os ydych yn ymgyrchydd cofrestredig (ac **nid** ydych yn blaid wleidyddol gofrestrdig a wnaeth sefyll yn etholiad cyffredinol Senedd y DU), eich terfyn gwario yw £700,000.

Pleidiau gwleidyddol sy'n ymgyrchwyr cofrestredig

Os ydych yn blaid wleidyddol ar gofrestr pleidiau gwleidyddol Prydain Fawr neu Ogledd Iwerddon a'ch bod yn ymgyrchydd refferendwm cofrestredig, bydd eich terfyn gwario yn dibynnu ar eich cyfran o'r bleidlais yn etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2015. Nodir y terfynau isod.

Mewn achosion penodol pan fyddwch yn cydweithio â'r ymgyrchydd arweiniol dynodedig, efallai y gallwch wario mwy heb orfod cofrestru. I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

- [Cydweithio ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

- [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

Pleidiau gwleidyddol â:

Mwy na 30% o'r bleidlais	£7,000,000
Rhwng 20 a 30% o'r bleidlais	£5,500,000
Rhwng 10 ac 20% o'r bleidlais	£4,000,000
Rhwng 5 a 10% o'r bleidlais	£3,000,000
Llai na 5% o'r bleidlais	£700,000

Grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig

Os cewch eich dynodi yn grŵp ymgyrchu arweiniol, eich terfyn gwario yw £7,000,000.

Gwariant tybiannol

Gwariant tybiannol yw'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y gyfradd fasnachol am eitem neu wasanaeth a'r pris a dalwch am yr eitem neu'r gwasanaeth mewn gwirionedd.

Yn ystod eich ymgyrch ar y refferendwm, efallai y byddwch yn talu am eitemau neu weithgareddau am gost is na'u gwerth masnachol. Er enghraifft, os bydd y cyflenwr yn cefnogi eich ymgyrch.

Rhaid i chi gofnodi gwerth masnachol llawn yr eitemau neu'r gweithgareddau hyn:

- os cewch yr eitem am ddim neu am ostyngiad o fwy na 10%, ac
- os yw'r gwahaniaeth rhwng y gwerth masnachol a'r hyn a dalwch dros £200

Os cewch ostyngiad o 10% neu lai, neu os yw'r gwahaniaeth mewn gwerth yn £200 neu lai, dim ond y swm a dalwyd gennych y mae angen i chi ei gofnodi.

I gael rhagor o wybodaeth am gael eich dynodi yn grŵp ymgyrchu arweiniol a'r grant gennym ni, gweler:

- [Proses ddynodi ar gyfer Refferendwm yr UE](#)

Gostyngiadau masnachol yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, fel gostyngiadau ar gyfer swmp-archebion neu ostyngiadau tymhorol.

Gostyngiadau anfasnachol yw gostyngiadau arbennig a roddir i chi, yn benodol, gan gyflenwyr.

12

Prisio gwariant tybiannol

Os yw'r cyflenwr yn ddarparwr masnachol, dylech ddefnyddio'r cyfraddau y mae'n eu codi ar gwsmeriaid eraill. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech ganfod beth mae darparwyr tebyg yn ei godi am yr un nwyddau neu wasanaethau a defnyddio hyn fel y gwerth masnachol.

Dylech gadw cofnod o'r modd y lluniwyd eich prisiad a chadw copïau o unrhyw ddyfynbrisiau a gewch.

Rhaid i'r gwerth a ddatganwch fod yn asesiad gonest a rhesymol o'r gwerth masnachol.

Prisio staff ar secondiad

Os bydd cyflogwr yn secondio aelod o staff ar gyfer eich ymgyrch, rhaid i chi gofnodi ei gyflog gros ac unrhyw lwfansau ychwanegol fel gwerth tybiannol.

Nid oes angen i chi gynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol na phensiwn y cyflogwr.

Rheoli gwariant ar refferendwm

Rhannu gwariant

Efallai y bydd angen i chi rannu eich costau rhwng eitemau sy'n cyfrif fel gwariant ar refferendwm a'r rhai nad ydynt yn cyfrif fel gwariant ar refferendwm. Efallai y bydd angen i chi hefyd rannu eich costau rhwng eitemau a ddefnyddir cyn dechrau cyfnod y refferendwm a'r rhai a ddefnyddir yn ystod cyfnod y refferendwm.

Ym mhob achos, dylech wneud asesiad gonest, yn seiliedig ar y ffeithiau, o gyfran y gwariant y gellir ei phriodoli'n deg i'ch gwariant ar ymgyrch y refferendwm.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn ein papur arbenigol: [Rhannu gwariant ar ymgyrchu](#).

Cyfnodau a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd

Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau penodol a gynhelir ar 5 Mai a chyfnod y refferendwm. Yr etholiadau perthnasol ym mis Mai yw'r etholiadau ar gyfer Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru, a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Dechreuodd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer yr etholiadau hyn ar 5 Ionawr a bydd yn dod i ben ar 5 Mai 2016. Mae cyfnod refferendwm yr UE a'r cyfnod a reoleiddir yn gorgyffwrdd rhwng 15 Ebrill a 5 Mai 2016.

Caiff gwariant gan ymgyrchwyr ar refferendwm yr UE ac etholiadau mis Mai 2016 ei reoleiddio dan reolau gwahanol. Yn ystod y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd, bydd rheolau penodol yn gymwys ynglŷn ag ymgyrchu a gwariant ar gyfer y refferendwm **ac** etholiadau mis Mai.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i chi rannu eich gwariant rhwng eich terfyn yn y refferendwm a'ch terfyn gwario ar gyfer etholiadau mis Mai.

Pwysig

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol allu datgan bod eich ffurflen gwariant yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred.

Am ragor o wybodaeth, gweler y canllawiau canlynol:

- [Trosolwg: Cyfnodau a reoleiddir](#)
- [Etholiad Senedd yr Alban 2016](#)
- [Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016](#)
- [Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon mis Mai 2016](#)

14

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn ein canllawiau: [Cyfnodau a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd.](#)

Awdurdodi a thalu gwariant ar refferendwm

Dim ond yr 'unigolyn cyfrifol' a gofrestrwyd gyda ni a phobl a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan yr unigolyn cyfrifol a all fynd i gostau o ran gwariant ar refferendwm.

Gall awdurdodiadau ymwneud â gwariant ar eitemau penodol, neu hyd at swm penodol.

Mae'r rheolau hyn ar waith er mwyn sicrhau y gellir rheoli gwariant a'i gofnodi ac adrodd arno yn gywir.

Dylech sicrhau bod eich gwirfoddolwyr a'ch ymgyrchwyr yn gwybod pwy all ac na all fynd i gostau.

Ystyr 'mynd i wariant' neu 'fynd i gostau' yw gwneud ymrwymiad cyfreithiol i wario arian, fel cadarnhau archeb.

Terfynau amser ar gyfer derbyn a thalu anfonebau

Derbyn anfonebau gan gyflenwyr

Rhaid i chi gael pob anfoneb gan gyflenwyr erbyn 25 Gorffennaf 2016.

Os na chewch anfoneb o fewn 30 diwrnod, ni ddylech ei thalu ar ôl yr amser hwnnw heb gael gorchymyn llys i wneud hynny. Dylech hysbysu eich cyflenwyr o hyn.

Talu anfonebau gan gyflenwyr

Rhaid i chi dalu eich holl anfonebau gan gyflenwyr erbyn 22 Awst 2016.

Os na thalwch anfoneb o fewn 60 diwrnod, rhaid i chi gael gorchymyn llys i allu gwneud hynny.



Cofnodi gwariant ar refferendwm

Rhaid i chi gofnodi'ch holl wariant ar y refferendwm. Bydd angen i chi anfon y wybodaeth hon atom ar eich ffurflen gwariant ar ôl y refferendwm.

Rhaid i chi gadw anfonebau neu dderbynebion ar gyfer unrhyw wariant dros £200.

Yr hyn y mae angen i chi ei gofnodi

Ar gyfer pob eitem gwariant, rhaid i chi gofnodi'r wybodaeth ganlynol i'w rhoi ar eich ffurflen gwariant:

- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- y swm neu'r gwerth
- y dyddiad gwariwyd yr arian

Eitemau a roddir am ddim

Os cewch eitemau am ddim, fel gwariant tybiannol, rhaid i chi gofnodi gwerth marchnad llawn yr eitem (y gwariant tybiannol).

Eitemau a roddir am bris gostyngol anfasnachol

Os cewch eitemau am bris gostyngol o fwy na 10% a'u bod yn werth mwy na £200, fel gwariant tybiannol, rhaid i chi gynnwys gwerth marchnad llawn yr eitem (y gwariant tybiannol).

Pwysig

Os bydd gan eitem werth o fwy na £500, ac os caiff ei rhoi am ddim neu am bris gostyngol anfasnachol, gall fod yn rhodd hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

- [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

16

Rhoi gwybod am wariant ar ôl y refferendwm

Gwariant o £10,000 neu lai ar ymgyrchu

Os ydych wedi cofrestru'n ymgyrchydd refferendwm a'ch bod yn gwario £10,000 neu lai yn ystod cyfnod y refferendwm, ni fyddwch yn llenwi ffurflen gwariant ar gyfer ymgyrch y refferendwm. Mae hyn yn cynnwys ymgyrchwyr cofrestredig nad aethant i unrhyw gostau o gwbl ar y refferendwm. Yn lle hynny, rhaid i chi wneud datganiad i ni fod cyfanswm eich gwariant yn llai na £10,000.

Gallwch wneud hyn ar-lein neu drwy lenwi [EUR3A - datganiad gwario llai na £10,000](#).

Gwariant o fwy na £10,000 ar ymgyrchu

Os byddwch yn gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm, rhaid i chi roi gwybod i ni am eich gwariant yn eich ffurflen gwariant ar ymgyrchu.

Rhaid i'ch ffurflen gwariant gynnwys y canlynol:

- cofnodion o'ch gwariant
- anfonebau a derbynebion ar gyfer unrhyw daliad dros £200
- datganiad gan yr 'unigolyn cyfrifol' i ddweud bod y ffurflen yn gyflawn a chywir

Pwysig

Os nad aethoch i gostau o gwbl ar y refferendwm, mae angen i chi ein hysbysu o hyd naill ai [ar-lein](#) neu drwy lenwi ffurflen [EUR3A](#)

Rhaid i chi hefyd gofnodi rhoddion a benthyciadau yn eich ffurflen gwariant ar ymgyrchu. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein canllawiau [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#) a [Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#).

Gwariant ar ymgyrchu wrth gydweithio

Os ydych wedi cydweithio ag ymgyrchydd arall, rhaid i chi gynnwys y canlynol:


- cofnodion o'ch gwariant
- anfonebau a derbynebion ar gyfer unrhyw daliad a wnaethoch dros £200
- enw'r ymgyrchydd arall
- cyfanswm gwariant yr ymgyrchydd arall yn ystod yr ymgyrch

Gallwch lenwi'r ffurflen [ar-lein](#) neu gallwch lenwi a dychwelyd ffurflen [EUR3B - ffurflen gwariant ar ymgyrch y refferendwm](#).

Os ydych wedi gwario dros £250,000 ar ymgyrch y refferendwm, bydd angen i chi hefyd gynnwys [adroddiad gan archwilydd](#) cymwys.

Dyddiadau cau ar gyfer rhoi gwybod am wariant ymgyrchu

Mae'r dyddiad y mae'n rhaid i chi ein hysbysu yn dibynnu ar faint y gwnaethoch ei wario ar eich ymgyrch. Dangosir y dyddiadau cau isod.



Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

Lloegr: 0333 103 1928

pef@electoralcommission.org.uk

Yr Alban: 0333 103 1928

infoscotland@electoralcommission.org.uk

Cymru: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928

infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk